Ordnance Survey® Arolwg Ordnans®

Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed – 2008

Cyfarwyddiadau ar gyfer dosbarthu mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7/Primary 7

Ein cyf: FM11W

Annwyl Athro Dosbarth

Mae'ch ysgol wedi cytuno i delerau ac amodau'r cynnig hwn. Gellir eu gweld yn llawn yn http://freemaps.ordnancesurvey.co.uk/freemapsfor11yearolds/index_welsh.html

- Darperir mapiau i blant ym Mlwyddyn 7/Primary 7 yn nhymor yr hydref 2008.
- Rydych yn cytuno i ddosbarthu'r mapiau hyn i'r plant cyn gynted â phosibl.
- Unwaith y byddant wedi'u dosbarthu, y plant sy'n berchen ar y mapiau, y sticeri, y taflenni a'r llythyrau, a'u heiddo nhw ydynt.
- Darperir mapiau ychwanegol at ddibenion addysgol yn unig, ac maent yn parhau i fod yn eiddo i'ch ysgol ac nid yr athro unigol.
- Mae'n ddrwg gennym na ellir cyflenwi mapiau, sticeri a llythyrau ychwanegol.

Dosbarthu mapiau rhad ac am ddim i blant Blwyddyn 7/Primary 7

Cam 1 Dywedwch wrth y plant am y mapiau, sef:

- Bod yr Arolwg Ordnans yn rhoi map a llyfryn darllen map iddynt yn rhad ac am ddim. Esboniwch fod y rhain iddynt eu cadw a'u defnyddio gartref, ond y dylent ddod â'r map i'r ysgol i'w ddefnyddio yn y dosbarth pan fydd athrawon yn gofyn iddynt wneud hynny.

Cam 2 Darparwch un o bob un o'r pethau a ganlyn i bob plentyn sy'n gymwys:

- Map: Explorer® graddfa 1:25 000 yr Arolwg Ordnans.
- Sticer: Label enw MapZone®.
- Llyfryn: Darllen map heb drafferth yn y byd.
- Llythyr: I rieni/gwarcheidwaid.

Cam 3 Sicrhewch fod y plant yn rhoi'r sticer enw MapZone ar glawr y map yn syth, ac yn ysgrifennu'u henw arno.

Cam 4 Gofynnwch i'r plant ysgrifennu eu henw ar y llyfryn *Darllen map heb drafferth yn y byd...*

Cam 5 Dywedwch wrth y plant am fynd â'r mapiau, y taflenni a'r llythyrau gartref, a sicrhau eu bod yn rhoi'r llythyr i'w rhieni neu warcheidwaid.

Diolch am ddosbarthu'r mapiau hyn i'ch dosbarth. Mewn ymateb i'ch adborth, rydym wedi cynnwys rhai taflenni i athrawon, *Addysgu â mapiau rhad ac am ddim yr Arolwg Ordnans*, ym mhecyn pob cydlynydd ysgol. Gallwch hefyd lawrlwytho copi Cymraeg o hon o www.ordnancesurvey.co.uk/Freemapsfor11yearolds.welshdocuments. Gallwch hefyd lawrlwytho copi o'r ddogfen hon yn Saesneg o'n gwefan.

Busnes yn y Gymuned GWOBRAU 2008